

Elusen Ogwen

Polisi Rhoi Grantiau

1. Pwrpas

- 1.1 Pwrpas y polisi hwn yw nodi'r egwyddorion, y meini prawf a'r prosesau sy'n rheoli sut mae Elusen Ogwen ('yr Elusen') yn rhoi grantiau.
- 1.2 Diffinnir grant fel dyfarniad ariannol y mae'r Elusen yn ei wneud o'i chronfeydd i gefnogi gweithgareddau elusennol, ac a roddir fel arfer i elusennau neu grwpiau cymunedol.
- 1.3 Mae copi o ganllawiau Cais am Grant yr Elusen wedi'i gynnwys fel atodiad i'r polisi hwn.
- 1.4 Mae amcanion Elusen Ogwen, fel y nodwyd yn ein Cyfansoddiad, fel a ganlyn:

Hyrwyddo dibenion elusennol (yn unol â chyfraith Cymru a Lloegr) er budd cyffredinol y cymunedau o fewn ffiniau Cyngorau Cymuned Bethesda, Llanllechid a Llandygái yn sir Gwynedd (na wneir darpariaeth ar eu cyfer gan drethi cyhoeddus) ac fel bydd yr Ymddiriedolwyr yn ystyried yn addas ac yn briodol.

2. Cyflwyniad

- 2.1 Mae Elusen Ogwen yn elusen gofrestredig (rhif 1192642) ac yn Sefydliad Corfforedig Elusennol (SCE). Mae'n cael ei rhedeg gan Fwrdd Ymddiriedolwyr ac mae'n cael rhoddion gan Ynni Ogwen, sefydliad cymunedol sy'n cynhyrchu referniw trwy gynhyrchu trydan o ynni dŵr yn Nyffryn Ogwen.
- 2.2 Mae'r Ymddiriedolwyr yn sicrhau bod grantiau'r Elusen yn cael eu rheoli'n briodol mewn tair ffordd:
 - Trwy egwyddorion rhoi grantiau sy'n sicrhau mai Ymddiriedolwyr yr Elusen sy'n gwneud penderfyniadau. Mae'r egwyddorion hyn yn egluro mai arian yr Elusen yw'r arian a roddir i'r Elusen, er bod cyfyngiadau ar ei ddefnydd.
 - Trwy gyhoeddi meini prawf rhoi grantiau sy'n nodi'r gweithgareddau y mae'r Ymddiriedolwyr yn dymuno eu cefnogi i hyrwyddo amcanion yr Elusen. Mae'r meini prawf hefyd yn cynnwys gweithgareddau nad yw'r Ymddiriedolwyr am eu cefnogi oherwydd nad ydynt yn ystyried eu bod yn cyd-fynd â phwrpas yr Elusen. Ym mhob achos o'r fath bydd y gweithgaredd a gefnogir yn elusennol yn ôl y gyfraith.
 - Trwy brosesau rhoi grantiau sy'n nodi sut y gwneir penderfyniadau ar gyfer dyfarnu grantiau.

3 Egwyddorion Rhoi Grantiau

Mae'r **egwyddorion** fel a ganlyn:

- 3.1 Bwrdd yr Ymddiriedolwyr sydd â'r cyfrifoldeb terfynol am yr holl benderfyniadau yn ymwneud â rhoi grantiau yn unol ag amcanion yr Elusen.
- 3.2 Mae gan yr Ymddiriedolwyr yr hawl i osod amodau ar bob grant.

3.3 Mae'r Ymddiriedolwyr hefyd yn cadw'r hawl i beidio â chymeradwyo unrhyw gais os ydynt yn penderfynu na fyddai'r grant sy'n deillio o hyn yn elusennol neu y byddai'n gwrthdaro â pholisïau datganedig yr Elusen neu'n niweidio'i henw da.

4 Meini Prawf ar gyfer Rhoi Grantiau

4.1 Mae canllawiau cyhoeddedig yr Elusen ynghylch meini prawf ar gyfer ceisiadau gan unigolion a grwpiau wedi'u nodi yn Atodiad 1 y polisi hwn. Y nod yw rhoi grantiau i ystod eang o sefydliadau. Mae'r Ymddiriedolwyr yn arbennig o awyddus i helpu grwpiau cymunedol a sefydliadau gwirfoddol bach i ganolig yn y prif faes buddion.

4.2 Fel elusen gofrestredig, gall yr Elusen roi grantiau i gefnogi gweithgaredd sy'n elusennol yn ôl y gyfraith yn unig, ac ni all roi grantiau i sefydliadau y tu allan i'r ardal ddaearyddol ddynodedig (ardaloedd Cynghorau Cymuned Bethesda, Llanllechid, a Llandygái yn sir Gwynedd). Yn ogystal, dim ond grantiau sydd i'w defnyddio'n benodol at y dibenion a amlinellir yng nghais grant yr ymgeisydd fydd yr Elusen yn eu rhoi.

4.3 Mae'r Ymddiriedolwyr yn disgwyl y bydd grantiau fel arfer yn cefnogi un neu fwy o'r deilliannau canlynol:

- Lleihau tlodi tanwydd a thlodi cymdeithasol
- Datblygu prosiectau ynni adnewyddadwy
- Hyrwyddo trafnidiaeth gynaliadwy a theithio egnïol
- Arbed ynni
- Cysylltu unigolion o bob oed â'r amgylchedd
- Lleihau gwastraff
- Annog unigolion i wirfoddoli mewn prosiectau amgylcheddol yn eu cymunedau
- Gwella ansawdd yr amgylchedd lleol
- Cynyddu cynhyrchu / prynu bwyd lleol

4.4 Fel rheol, ni fydd yr Ymddiriedolwyr yn cefnogi ceisiadau gan y canlynol:

- Unigolion
- Cwmnïau preifat
- Ysgolion
- Cynghorau Cymuned

4.5 Fel rheol, ni fydd yr Ymddiriedolwyr yn cefnogi'r mathau canlynol o wariant:

- Cynnal a chadw arferol ar adeiladau neu gynnal a chadw gweithgareddau / gwasanaethau sydd eisoes yn bodoli.
- Prosiectau refeniw tymor hir na allant ddangos cynaliadwyedd ariannol y tu hwnt i'r cyfnod y dyrennir y grant ar ei gyfer.
- Prosiectau sy'n hyrwyddo safbwyntiau gwleidyddol neu grefyddol penodol.
- Gwariant sydd eisoes ar waith neu waith wedi'i gomisiynu cyn i'r grant gael ei ddyfarnu.

4.6 Er mwyn sicrhau bod adnoddau'r Elusen yn cael eu defnyddio i hyrwyddo ei hamcanion elusennol yn unig, ac fel y gall adrodd ar effaith grantiau, mae Ymddiriedolwyr fel arfer yn disgwyl y bydd gan bob grant o leiaf un amcan mesuradwy y cytunwyd arno ar ddechrau'r cyfnod cyllido fel rhan o'r cynnig grant.

- 4.7 Mae'r ffactorau y bydd yr Ymddiriedolwyr yn eu hystyried wrth ddyfarnu grantiau fel a ganlyn:
- Yr arian sydd ar gael ar gyfer grantiau
 - Lefel y grant y gofynnir amdano ac i ba raddau y mae'r sefydliad sy'n gwneud y cais yn cwrdd â chanllawiau'r Elusen (gweler Atodiad 1)
 - Ers faint o amser mae'r sefydliad wedi bodoli
 - Lefel rheolaeth yn y sefydliad sy'n gwneud y cais
- 4.8 Yr uchafswm grant sydd ar gael fel arfer yw £3,000, er mewn achosion arbennig gellir mynd y tu hwnt i hyn ar ôl trafod â'r Ymddiriedolwyr, a chytuno ar hynny. Mae'r Ymddiriedolwyr yn cydnabod efallai y bydd angen asesu a monitro ychwanegol ar grantiau o'r fath.

5 Y Broses Rhoi Grantiau

Yr Ymddiriedolwyr sy'n pennu'r swm sydd ar gael ar gyfer rhoi grantiau yn flynyddol.

Ymhob achos bydd yr Ymddiriedolwyr yn ymgymryd â diwydrwydd dyladwy ar y sefydliad sy'n gwneud y cais. Bydd hyn yn cynnwys gwirio bod y rhif elusen gofrestredig yn ddilys, gwirio'r datganiad banc a ddarperir gan yr ymgeisydd am unrhyw anghysonderau, cynnal chwiliadau ar y we a thynnu ar wybodaeth leol yr Ymddiriedolwyr.

- 5.1 Bydd yr Ymddiriedolwyr yn gwahodd ceisiadau trwy hysbysebu mewn papurau newydd lleol, y llyfrgell, siopau a thrwy gyfryngau cymdeithasol. Fel rheol, bydd ceisiadau'n cael eu hasesu yn ystod dau gyfnod cyllido bob blwyddyn, yn dod i ben ar 30 Mawrth a 30 Medi. Gellir gwneud ac asesu ceisiadau am grantiau am lai na £500 ar unrhyw adeg.
- 5.2 Mae'n rhaid cyflwyno pob cais yn ysgrifenedig neu'n electronig gan ddefnyddio ffurflen gais yr Elusen ei hun, a bydd yr Ymddiriedolwyr yn cydnabod eu bod wedi cael y cais.
- 5.3 Bydd yr Ymddiriedolwyr yn cyfarfod ar ddiwedd pob cyfnod cyllido i ystyried pob cais yn erbyn y cyllid sydd ar gael ac yn erbyn meini prawf penodol yr Elusen. Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth bydd yr Ymddiriedolwyr yn nodi a ydynt yn dymuno derbyn neu wrthod cais. Cymeradwyir grantiau ar fwyafrif syml ymhlith yr Ymddiriedolwyr.
- 5.4 Hysbysir ymgeiswyr am ddyfarniad grant trwy lythyr o fewn 6 wythnos i ddiwedd y cyfnod cyllido. Bydd y llythyr yn nodi manylion telerau ac amodau'r grant a bydd angen i'r ymgeisydd eu derbyn cyn y gellir talu'r grant i gyfrif banc yr ymgeisydd.
- 5.5 Os bydd yr Elusen o'r farn bod sefydliad wedi torri'r telerau ac amodau, mae gan yr Elusen yr hawl i ofyn am i'r grant a ddyfarnwyd gael ei ad-dalu.
- 5.6 Mae'n ofynnol i bob sefydliad sy'n cael grant gydymffurfio â'r gofynion monitro.

Fersiwn 2 Polisi Rhoi Grantiau Elusen Ogwen

Mabwysiadwyd gan yr Ymddiriedolwyr Hydref 2022

Atodiad 1

Elusen Ogwen

Canllawiau ymgeisio 20xx/20xx

1. Beth yw Elusen Ogwen?

Pan sefydlwyd Ynni Ogwen roedd bwriad sefydlu elusen a fyddai'n dosbarthu elw o'u gynlluniau ynni ar gyfer achosion da'n lleol. Bellach mae grŵp o ymddiriedolwyr wedi dod ynghyd i sefydlu Elusen Ogwen i weinyddu'r gronfa gymunedol hon.

Prif nod yr elusen yw cefnogi cynlluniau ym maes cynaliadwyedd a fydd yn gwella ansawdd bywyd trigolion, grwpiau a chymunedau Nyffryn Ogwen.

2. Amcanion y Gronfa Gymunedol

Mae'r Elusen yn medru cyfrannu at brosiectau cyfalaf a referniw sy'n cwrdd â'r amcanion canlynol:

- Lleihau tlodi tanwydd a chymdeithasol
- Datblygu prosiectau ynni adnewyddadwy
- Hybu trafndiaeth gynaliadwy a theithio actif
- Arbed ynni
- Cysylltu unigolion o bob oed â'r amgylchedd
- Lleihau gwastraff
- Annog unigolion i wirfoddoli mewn prosiectau amgylcheddol yn eu cymunedau
- Gwella ansawdd yr amgylchedd lleol
- Cynyddu cynhyrchu / prynu cynnyrch bwyd lleol

3. Pwy all ymgeisio am gefnogaeth?

Gall grwpiau cymunedol ymgeisio am gefnogaeth i brosiectau fydd yn creu budd i drigolion Dyffryn Ogwen. Mae Dyffryn Ogwen wedi'i ddiffinio fel yr ardal ddaearyddol sydd o fewn ffiniau Cynghorau Cymuned Bethesda, Llandygái a Llanllechid.

Mae'n rhaid cyrraedd y meini prawf canlynol os am ymgeisio am arian gan y gronfa:

- Rhaid bod yn fudiad cymunedol neu wirfoddol sydd wedi ei leoli neu yn gweithredu o fewn Dyffryn Ogwen (gweler y diffiniad uchod)
- Ni all eich mudiad ddosbarthu elw
- Rhaid i'ch mudiad fod â statws cyfreithiol a chyfansoddiadol clir
- Rhaid i'ch mudiad fod â strwythur rheoli clir
- Rhaid i'ch mudiad gael sustem rheoli ariannol glir

- Bod gennych yswiriant addas mewn lle ar gyfer y gweithgareddau sydd dan sylw
- Dangos eich bod yn gweithredu yn unol ag egwyddorion deddfwriaeth gyfredol ar gyflogaeth, iechyd a diogelwch, cydraddoldeb i weithwyr a gwirfoddolwyr
- Dangos dealltwriaeth ac ymrwymiad i gydraddoldeb nodweddion gwarchoddedig Deddf Cydraddoldeb 2010 yn ogystal â chydraddoldeb ieithyddol (mae gan Elusen Ogwen bolisi iaith a pholisi cydraddoldeb; gellir darparu copïau ohonynt ar gais)
- Dangos bod grwpiau ac unigolion eraill yn yr ardal yn cefnogi'r gweithgaredd/cynllun
- Dangos gwerth am arian wrth ddatblygu, gweithredu a rhedeg y cynllun e.e. casglu prisiau cyfatebol ar gyfer prosiectau llai neu ddilyn proses dendro ffurfiol ar gyfer prosiectau cyfalaf mwy
- Dangos eich bod yn cydnabod ac yn cyd-fynd â deddfwriaeth amddiffyn plant ac oedolion bregus lle bo hynny'n berthnasol

Ni all y gronfa ariannu ysgolion, cynghorau cymuned, busnesau preifat nac unigolion.

4. Pa fath o brosiectau y byddai'n bosibl i'r elusen eu cefnogi?

Disgwylir i geisiadau fod yn seiliedig ar gynlluniau neu wasanaethau newydd fydd yn cyflawni amcanion y gronfa.

Yn ogystal, mae disgwyl y bydd pob prosiect yn cael ei weithredu trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog gan hyrwyddo pob cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg. Mae'r gronfa yn awyddus iawn i gefnogi prosiectau arloesol a rhai sydd yn datblygu mentergarwch o fewn ein cymuned. Mae disgwyl i bob prosiect fod yn gynaliadwy h.y. profi bod y budd yn debygol o barhau unwaith y bydd y cyfnod ariannu trwy grant ar ben.

Enghreiffiau o brosiectau y byddai'n bosibl i'r elusen eu cefnogi:

Amcan	Enghreiffiau
Lleihau tlodi tanwydd	Addysgu am effeithlonrwydd ynni, deall a dehongli biliau ynni, sbarduno insiwleiddio ac ymarferion arbed ynni
Datblygu prosiectau ynni adnewyddadwy	Gosod pwyntiau gwefru cerbydau trydan, gosod offer cynhyrchu trydan ar safleoedd cymunedol
Hybu trafndiaeth gynaliadwy a theithio actif	Prosiectau sydd yn annog beicio neu cerdded i'r ysgol neu'r gwaith
Arbed ynni	Gosod offer sydd yn arbed ynni mewn adeiladau cymunedol, annog busnesau neu gymuned o drigolion i arbed ynni
Cysylltu unigolion â'r amgylchedd	Prosiectau cadwraeth neu wyddonol
Lleihau gwastraff	Prosiectau sydd yn annog ail defnyddio neu ailgylchu
Annog unigolion i wirfoddoli mewn prosiectau amgylcheddol yn eu cymunedau	Prosiectau cadwraeth neu wyddonol

Gwella ansawdd yr amgylchedd lleol	Mabwysiadu a gwella llecynnau o dir, plannu mewn mannau cyhoeddus, hel sbwriel
Cynyddu cynhyrchiant / pryniant cynnyrch bwyd lleol	Datblygu rhandiroedd neu berllannau cymunedol, annog ffyrdd newydd o werthu a dosbarthu cynnyrch lleol

5. Pa fath o wariant na all yr elusen ei gefnogi?

- Ni fydd grant yn cael ei roi i waith cynnal a chadw arferol a rheolaidd adeiladau nac i gynnal gweithgareddau / gwasanaethau sy'n bodoli'n barod.
- Ni fyddwn yn ariannu prosiectau refeniw hirdymor sydd ddim yn gallu dangos cynaliadwyedd ariannol y tu hwnt i gyfnod ariannu'r gronfa.
- Ni fyddwn yn ariannu prosiectau sydd yn hyrwyddo crefydd na safbwyntiau gwleidyddol penodol.
- Ni fyddwn yn ariannu gwariant sydd eisoes mewn lle neu waith sydd wedi'i gomisiynu cyn dyfarnu'r grant.
- Byddwn yn ystyried cronfeydd cyllidol ymgeiswyr wrth asesu ceisiadau. Os bydd gan fudiad gronfeydd sylweddol i bwrpas penodol a rhesymol arall, mae angen egluro'r polisi hynny wrth ymgeisio.

6. Faint o gyllid y gellir ei ddyfarnu?

- Fel arfer bydd y gronfa'n cyfyngu cynigion grant unigol i £2,000. Gellir ystyried ceisiadau am symiau uwch mewn achosion arbennig, ond awgrymir trafod hyn ymlaen llaw os oes bwriad i gyflwyno cais am swm uwch.
- Mae modd ymgeisio am gyllid refeniw dros 3 blynedd ariannol ond bydd taliadau grant blynyddoedd 2 a 3 yn ddibynnol ar gwrdd â gofynion monitro'r grant a bod cyllid digonol ar gael i ariannu'r prosiect.
- Gellir ariannu 100% o gost prosiect, ond anogir ymgeiswyr i geisio adnabod cyfraniadau eraill e.e. trwy ddefnyddio cronfeydd y grŵp, gweithgareddau codi arian neu geisiadau i arianwyr eraill.
- Gall grŵp sydd wedi derbyn grant o'r gronfa o'r blaen cyflwyno cais newydd am brosiect arall unwaith y bydd holl ofynion monitro'r grant gwreiddiol wedi'u cwblhau.

7. Sut i ymgeisio am grant?

- Gellir gwneud cais drwy lenwi'r ffurflen gais bwrpasol, sydd ar gael yn Llyfrgell Bethesda, Siop Ogwen, Swyddfa Partneriaeth Ogwen neu o wefan Partneriaeth Ogwen
- Mae'n bwysig eich bod yn dilyn y cyfarwyddiadau yn ofalus ac yn sicrhau bod eich cynllun yn ymateb i'r amcanion a'r meini prawf sydd yn y canllawiau.
- Mae'n bwysig eich bod yn cwblhau'r ffurflen yn llawn ac yn cynnwys pob eitem o wybodaeth y gofynnir amdano. Ni fyddwn yn prosesu ceisiadau sydd heb eu cwblhau'n llawn.

- Gellir cyflwyno ceisiadau'n electroneg i neu ar bapur i swyddfa Partneriaeth Ogwen.

8. Pryd y dylid gwneud cais?

Mae dau ddyddiad cau yn flynyddol ar gyfer y gronfa, sef:

- 31 Mawrth
- 30 Mehefin
- 30 Medi
- 31 Rhagfyr

Rydym yn hapus i dderbyn ceisiadau am lai na £500 ar unrhyw adeg. Byddwn yn anelu i brosesu ceisiadau o fewn 6 wythnos.

9. Beth sy'n digwydd pan fyddwch yn cyflwyno eich cais?

- Wedi i ni gael eich cais, byddwn yn adolygu'r dogfennau ac yn cynnal gwiriad 'diwydrwydd dyladwy' ar eich sefydliad. Byddwn yn ystyried lefel y grant y gofynnir amdano ac i ba raddau y mae eich prosiect yn cyd-fynd â'n hamcanion elusennol. Yna bydd yr Ymddiriedolwyr yn gwneud penderfyniad trwy fwyafrif syml ynghylch cymeradwyo eich cais ai peidio. Cewch eich hysbysu o'r penderfyniad trwy lythyr ac, os byddwch yn llwyddiannus, gofynnir ichi lofnodi Llythyr Derbyn sy'n amlinellu'r Telerau ac Amodau sydd ynghlwm wrth y grant.
- Fel rhan o'r Telerau, bydd angen i chi gadw cofnod llawn o'ch treuliau yn ystod eich prosiect, ac ar ôl ei gwblhau bydd angen i chi gyflwyno adroddiad i'r Elusen yn dangos sut y defnyddiwyd y grant a beth oedd canlyniadau'r prosiect.